

Darganfod beth mae Duw yn ei wneud

“Beth bynnag y mae’r Tad yn ei wneud, hyn y mae’r Mab yntau yn ei wneud yr un modd.” (adn. 19)

Beth am ddarllen Ioan 5:1–17 ac yna myfyrio

Ni all hyd yn oed y rhai sy’n darllen yr efengylau yn ysbeidiol beidio â sylwi ar y nifer o weithredoedd da wnaeth Iesu pan oedd ar y ddaear. Cyffyrddodd â’r gwahangleifion a’u hiachau, rhoddodd eu golwg i’r deillion, galluogodd y cloffion i gerdded eto, trodd ddŵr yn win, a pharodd i becyn bwyd bachgen bach fwydo miloedd. Mi allem ni fynd ymlaen.

Ond arhoswch ennyd i feddwl sut oedd awduron yr efengylau yn disgrifio’r dystiolaeth yma. Mae gweithredoedd Iesu yn cael eu galw’n wyrthiau (e.e. Math.11:20, 21, 23) – tywalltiad o allu dwyfol, yn tystiolaethu i nerth Duw ar waith yn Iesu. Maen nhw’n cael eu disgrifio fel gweithredoedd trugarog (e.e. Math.14:14) – tywalltiad o dosturi Duw a’i ddyhead angerddol i unioni byd toredig. Yn fwy na dim, mae’r gweithredoedd i’w gweld fel arwyddion (e.e. Ioan 20:30) – yn cyfeirio at realiti gogoneddus teyrnas Dduw a ddaeth i fod yn a thrwy Iesu.

Mae cyfrinach gweinidogaeth ein Harglwydd o wneud daioni i’w gweld yn narlleniad heddiw. Dim ei ddyrchafu ei hun oedd diddordeb Iesu, ond yn hytrach ‘gorffen’ yr hyn roedd ei Dad wedi’i ddechrau! Roedd Iesu’n gweithio dim ond lle’r oedd yn gweld ei Dad yn gweithio, ac yna dim ond er mwyn cau pen y mwdwl ar yr hyn roedd ei Dad wedi’i ddechrau. Dyma ffaith drawiadol i’w hwynebu. Cyn mynd allan i wneud gwaith Duw, mi fyddai’n ddoeth i ni weddio er mwyn canfod beth mae Duw yn ei wneud ac yn lle mae ef ar waith, ac yna mynd ati i wneud y gwaith law yn llaw ag ef. Faint o weithiau fuom ni’n cnocio ar ddrysau nad oedd Duw yn eu hagog, ac yna’n cael ein synnu pan ddigwyddom ni ddod ar draws un roedd yn ei agor? Roedd yna lawer o bobl sâl wrth bwll Bethesda y diwrnod hwnnw, ond dim ond yn un dyn roedd Duw, yn ei sofraniaeth ryfeddol, ar waith.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 119:121–136; Eff. 2:1–10; Phil. 2:12–18; 1 Tim. 6:17–19

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ydy gweddi’r salmydd?
2. Ar gyfer beth y crëwyd yr Effesiaid, yn ôl Paul?

Gweddi

O Dad nefol, cariadus, rho i mi’r ddoethineb a’r mewnwleidiad i gnocio ar y drysau rwyd ti am eu hagog. Helpa fi i ddilyn dy arweiniad di ym mhob dim ac i fod yn sensitif i’th ewylllys berffaith di. Yn enw Iesu. Amen.